


CONNECT/EXCHANGE



Delwedd: Rhan o 2 Swans (2011) gan Mat Fleming, gyda chaniatâd caredig yr artist

Ynglŷn â'r cynllun

Mae Connect/Exchange yn gynllun preswyl Prydeinig cenedlaethol i artistiaid y mae eu gwaith yn ymwneud â'r sgrin. Lluniwyd a datblygwyd y cynllun gan Northern Film & Media ac fe fydd yn helpu artistiaid i ymchwilio ac i ddatblygu prosiect newydd trwy gyfrwng cyfnod preswyl mewn dwy ran ynghyd â digwyddiadau rhwydweithio proffesiynol cysylltiedig.

Cynhelir preswyliau 2017 yn Newcastle-Gateshead, Lerpwl, Caeredin a Chaerdydd ac fe fydd cyfanswm o wyth lle ar gael yn y canolfannau partner hyn. Bydd pob cyfnod preswyl yn cael ei gynnal yn un o'n [sefydliadau partner](#).

Bydd artistiaid yn elwa ar y canlynol:

- *Cynllun preswyl mewn dwy ran:* Bydd Rhan Un yn gyfnod wythnos lle caiff artistiaid elwa ar gyflwyniadau cychwynnol, rhwydweithio gyda sîn gelfyddydol ranbarthol a chymuned y ganolfan bartner, a threulio amser yn gwneud gwaith ymchwil cychwynnol a chreu cysylltiadau priodol ar gyfer gwaith datblygu pellach. Bydd Rhan Dau yn rhoi mynediad hyblyg i gyfleusterau'r sefydliad partner dros gyfnod o ddau fis er mwyn i'r artist ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu ar y prosiect penodol.
- *Cefnogaeth gan gymheiriaid:* Bydd pob un o'n partneriaid yn cefnogi dau gyfnod preswyl. Bydd yr artistiaid a ddewisir yn ymgymryd â'u cyfnodau preswyl ar yr un pryd er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ar y cyd ar gael ac er mwyn iddynt allu rhwydweithio gyda'i gilydd.
- *Cynulleidfaoedd a'r cyhoedd:* Bydd artistiaid yn rhannu eu gwaith ac yn datblygu eu prosiectau ymchwil drwy gyfrwng blogiadau rheolaidd ar feicrowefan Connect/Exchange ac hefyd drwy ymwneud â chynulleidfao gyhoeddus.
- *Effeithiau tymor hir a chyfeirio:* Bydd partneriaid y cynllun yn trefnu rhaglen hyblyg o gefnogaeth i artistiaid gan gynnwys cyfarfodydd, ymweliadau â stiwdios, sgysiau, trafodaethau, rhwydweithiau ranbarthol a chyflwyniadau i'r diwydiant a'r sector, ynghyd â chysylltiadau perthnasol. Bydd artistiaid hefyd yn derbyn arweiniad a chymorth i ddsbarthu a dangos eu prosiectau wedi'r cyfnod preswyl.
- *Digwyddiad cenedlaethol:* Byddwn yn dod â'r holl artistiaid a'r partneriaid at ei gilydd yn Newcastle-Gateshead i rannu eu profiadau ac i gwrrdd â phobl allweddol ym myd celfyddyd y Gogledd Ddwyrain. Dilynir hyn gan ddiwrnod o weithdai a sgysiau ar bynciau fel marchnata, dosbarthu a dulliau arddangos. Byddwn yn trafod strategaethau penodol hefyd i artistiaid sy'n gweithio gyda delweddau symudol. Bydd y diwrnod hwn yn agored i weddill cymuned gelfyddydol y Gogledd Ddwyrain.

- *Manteision ehangach:* Bydd artistiaid sy'n gweithio yn rhanbarthau'r sefydliad partner hefyd yn elwa ar ddigwyddiadau a gweithgareddau yng Nghaerdydd, Lerpwl, Newcastle-Gateshead a Chaeredin trwy gyfrwng Connect/Exchange.

Artistiaid



Delwedd: 'Swyddfa'r Ditectif' gan Toby Phips Lloyd, gyda chaniatâd caredig yr artist. Llun gan James Sebright

Rydym yn chwilio am artistiaid uchelgeisiol a brwdfrydig yng nghyfnodau cynnar ac yng nghanol eu gyrfaedd sy'n agored i roi cynnig ar ac i rannu syniadau newydd ac sydd yn awyddus hefyd i elwa ar y cyfleoedd ar gyfer cymorth a rhwydweithio y gall Connect/Exchange eu cynnig. Bydd eich gwaith yn ymwneud â'r ddelwedd symudol, cyfryngau digidol neu gyfryngau'r sgrin a bydd gennych brosiect neu syniad newydd, a fydd yn estyn eich gwaith. Byddwch yn awyddus i ymchwilio a datblygu'r prosiect newydd hwn ymhellach. Byddwch yn awyddus i weithio gyda [sefydliad partner](#) penodol ac i fod yn rhan o gymuned artistig y ddinas honno ac i weld sut y gall y cyfle hwn fod o fudd i'ch gyrfa yn yr hirdymor.

Drwy gydol Connect/Exchange, byddwch yn cael eich cyflwyno i bobl a sefydliadau allweddol yn ninas eich sefydliad partner a byddwch yn elwa ar gefnogaeth a chyfleoedd pwrpasol i rwydweithio. Byddwch yn cael cymorth i ddatblygu amserlen i gwblhau eich prosiect ar ôl y cyfnod preswyl ac hefyd yn derbyn cymorth o ran dosbarthu ac arddangos eich gwaith. Bydd yna gyfleoedd hefyd i rwydweithio gydag artistiaid a sefydliadau eraill y cynllun mewn digwyddiad cenedlaethol yn Newcastle-Gateshead.

I ategu eich cyfnod preswyl, byddwn yn talu ffi i chi ac yn darparu llety, costau teithio gan gyfrannu hefyd at gost deunyddiau. Yn ogystal â hyn, mae gennym ysgoloriaeth mynediad-cyfngedig a allai dalu costau ychwanegol fel costau hygyrchedd a gwarchod plant. Yn gyfnewid, byddwch yn cadw blog am ddatblygiad eich prosiect ac yn cyflwyno eich ymchwili neu eich gwaith i'r cyhoedd. Byddwn yn cysylltu â chi flwyddyn ar ôl i'r cynllun ddod i ben i weld sut mae'r cymorth a ddarparwyd drwy gyfrwng Connect/Exchange wedi effeithio ar eich gwaith a'ch gyrfa yn y tymor hwy.

Mae gennym le i wyth artist ar gynllun preswyl Connect/Exchange – tri artist o Ogledd Ddwyrain Lloegr, un artist yn yr Alban, un artist wedi'i leoli yng Nghymru a thri artist a fydd yn gweithio'n genedlaethol. I gael mwy o wybodaeth am y preswyliaid gorau i chi, gweler ein rhestr o [sefydliadau partner](#).

Sefydliadau Partner: Chapter - Caerdydd

Artistiaid: Un artist yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr, un artist yng Nghymru

Ffi: £2500, ynghyd â £500 ar gyfer deunyddiau, £400 tuag at gostau teithio a £1000 ar gyfer llety

Dyddiadau'r cyfnod preswyl: Rhan Un - wythnos yn cychwyn 4 Medi. Rhan Dau (hyblyg) 2 Hydref - 27 Tachwedd 2017

Dyddiad cau: 10am, Llun 16 Ionawr 2017

Cyfweliadau: 13 a 14 Chwefror 2017

Mae Chapter yn ofod diwylliannol aml-gelfyddydol uchelgeisiol yng Nghaerdydd sy'n cyflwyno ac yn cynhyrchu celfyddyd ryngwladol, perfformiadau a ffilm. Mae'r ganolfan yn ofod cymdeithasol deinamig hefyd. Chapter oedd un o'r canolfannau celfyddyd cyntaf yn y DG ac, yn awr, fwy na 40 mlynedd ers i'r ganolfan agor ei drysau am y tro cyntaf, mae'n croesawu 800,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Nod Chapter yw datblygu diwylliant cyfoes, meithrin doniau newydd a sicrhau mynediad cyhoeddus i'r celfyddydau. Mae'n fan cyfarfod ar gyfer syniadau ac arloesedd ac yn creu llwyfan rhyngwladol mewn cyd-destun agored a lleol.

Twitter: [chapttweets](#)

Facebook: [Chapter](#)

Instagram: [chapttweets](#)

Bydd Chapter yn cefnogi dau artist sy'n gweithio ym maes y ddelwedd symudol. Mae'r cyfle hwn ar agor i artistiaid ym mhob ran o faes y ddelwedd symudol ac fe fydd eu gwaith yn arbrofol, yn llawn dychymyg ac yn arloesol. Fe all y term 'delwedd symudol' gynnwys (ymysg disgyblaethau eraill posib) y canlynol: ffilm a fideo arbrofol, gosodweithiau, animeiddio, ffilmiau dogfen personol, 'ysgrifau' ffilm neu brosiectau digidol / ar-lein.

Mae'r cyfnod a glustnodwyd ar gyfer y cyfnodau preswyl hyn yn cyd-fynd â chyfnod pan fydd Chapter yn curadu 'Cymru yn Fenis 2017' - arddangosfa o waith newydd a gomisiynwyd ar gyfer Biennale Celfyddyd Fenis rhif 57. Yr artist a ddewiswyd i gynrychioli Cymru yw James Richards (www.james-richards.co.uk). Bydd James yn gwneud gwaith newydd ar gyfer arddangosfa Fenis ac hefyd yn datblygu cyfres o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd i'w cynnal yn Chapter a ledled Cymru yn ystod y cyfnod preswyl hwn - bydd hwn yn gyfnod cyffrous iawn yng Nghaerdydd felly. Cymrwch olwg ar ein gwefan i weld archif o'n harddangosfeydd a manylion preswyliau blaenorol Chapter.

Cefnogaeth ac adnoddau'r cyfnod preswyl

Mae Chapter yn cynnal ystod eang o breswyliau yn y ganolfan yng Nghaerdydd ac fe fydd y cyfnodau hyn ar eu mwyafrad cynhyrchiol ac effeithiol pan gânt eu datblygu ar y cyd ag artistiaid. Felly, bydd yr wythnos ragarweiniol a'r cyfnod preswyl dilynol yn cael eu trefnu yn unol â gofynion a phrosiectau'r artistiaid llwyddiannus.

Mae'r canlynol yn rhestr o adnoddau a chymorth a allai fod ar gael yn Chapter:

- Gofod stiwdio ar safle Chapter ar Heol y Farchnad, sydd yn gartref i fwy na 35 o artistiaid a sefydliadau diwylliannol. Mae'r stiwdios ar agor saith diwrnod yr wythnos o 8.30am tan 10.30pm
- Defnydd o nifer fawr o fannau ym mhrif adeilad Chapter gan gynnwys dwy sinema, theatr, stiwdio ymarfer, gofodau ar gyfer digwyddiadau â chyfleusterau taflunio a PA, caffi bar mawr ac oriel gyhoeddus
- Awyrgylch cefnogol, gydag aelod penodol o staff i fod yn bwynt cyswllt drwy gydol y cyfnod preswyl, ac ymweliadau stiwdio rheolaidd a'r potensial i weithio gyda mentor arall yn ystod eich cyfnod preswyl
- Cyflwyniadau a mynediad i gymuned Chapter o artistiaid ac artistiaid preswyl mewn ystod o ddigwyddiadau cymdeithasol a chyfleoedd anffurfiol i rwydweithio â chyfoedion
- Cyfarfodydd gydag unigolion a sefydliadau diwylliannol perthnasol yng Nghaerdydd a De Cymru, a mynediad i rwydweithiau ehangach drwy gyfrwng cydweithwyr a phartneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol Chapter
- Mae Chapter yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid yng Nghaerdydd. Bydd y ganolfan yn gweithio gyda'r artistiaid llwyddiannus i nodi cyfleoedd arbenigol nad ydynt ar gael ar y safle. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, dod o hyd i ystafell gynhyrchu AV neu stiwdios recordio

Os hoffech chi drafod unrhyw ofynion neu anghenion penodol cyn gwneud cais am gyfnod preswyl yn Chapter, cysylltwch â Hannah Firth - Hannah.Firth@chapter.org.

Sut i wneud cais



Delwedd: Happy Hour (2011) gan Thomas Walker, gyda chaniatâd caredig yr artist

DYDDIAD CAU AR GYFER CYFNODAU PRESWYL GYDA [METAL](#), [CHAPTER](#) A [BALTIC + THE NEWBRIDGE PROJECT](#): 10AM DYDD LLUN 16 IONAWR 2017.

DYDDIAD CAU AR GYFER CYFNODAU PRESWYL GYDA [STILLS](#): 10AM DYDD LLUN 27 MAWRTH 2017

I wneud cais am gyfnod preswyl gyda Connect/Exchange, e-bostiwch y deunydd canlynol at y cyfeiriad hwn: applications@northernmedia.org

- Esboniad (400 gair) o'ch prosiect, y gwaith ymchwil a datblygu yr hoffech ei wneud, a'r effeithiau hir-dymor tebygol ar eich gwaith
- Paragraff (100 gair) i esbonio sut mae eich prosiect yn ymwneud â'r [sefydliad partner](#) penodol a'i ddinas
- Nodwch os gwelwch yn dda - gall y wybodaeth uchod gael ei chyflwyno hefyd drwy gyfrwng cyswllt fideo 3-4 munud o hyd
- Eich CV, gan gynnwys manylion cyswllt (cyfeiriad, e-bost, rhif ffôn ac enw Skype)
- Bywgraffiad 100 gair i'w ddefnyddio ar wefan [Connect/Exchange](#) os bydd eich cais yn llwyddiannus
- Hyd at wyth o ddelweddau manylder is (maint ffeil o 500kb ar y mwyaf) a hyd at bedair dolen i glipiau o waith delwedd symudol. Cofiwch gynnwys manylion fel cyfrwng y gwaith dan sylw a'i hyd ac ati. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwn yn defnyddio un o'ch lluniau ger eich bywgraffiad
- Manylion unrhyw anghenion penodol a fydd gennych o ran hygyrchedd neu gymorth
- Ffurflen monitro amrywiaeth

To have a look at the other residencies that are part of this programme follow the links below.

[BALTIC & The NewBridge Project, NewcastleGateshead](#)

[Metal, Lerpwl](#)

[Stills, Caeredin](#)

Gallwch wneud cais ar gyfer mwy nag un preswyl ond bydd angen i chi gyflwyno pob cais ar wahân. Nodwch hefyd y byddwn yn dewis artistiaid fel carfan ar gyfer y cynllun cyfan – mae gennym ddiddordeb mewn gweld sut y gall ystod o arferion artistig gwahanol ychwanegu at ehangder a



NORTHERN FILM + MEDIA

chyfoeth y cynllun cyffredinol. Cynhelir cyfweiliadau drwy Skype. Yn anffodus, oherwydd diffyg adnoddau, byddwn yn cysylltu ddim ond ag artistiaid a gaiff eu gwahodd am gyfweiliad

Cwestiynau pellach? Cysylltwch â Lauren Healey lauren@northernmedia.org / 0191 440 4560

NFM
NORTHERNMEDIA.ORG

BALTIC

 **THE
NEWBRIDGE
PROJECT**

Metal

 **Stills**

CHAPTER



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



 **Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales**

 **European Union
European Regional
Development Fund**